Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary's Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Adrian Crompton
Archwilydd Cenedlaethol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

9 Ionawr 2019

Annwyl Archwilydd Cenedlaethol Cymru

**Ymateb i'r adroddiad *Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru* (20 Rhagfyr 2018)**

Hoffwn ddiolch ichi am yr adroddiad hwn. Rwy'n falch fod y cynnydd rydym wedi ei wneud dros y deuddeg mis diwethaf wedi'i gydnabod ac rwy'n croesawu'n fawr y meysydd ffocws sydd wedi'u pennu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn hyderus bod cyfeiriad ein hymdrechion at y dyfodol yn gywir.

Mae ymgysylltu amlwg ac adeiladol wedi digwydd rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod y tri adolygiad sydd wedi'u cynnal hyd yma, ac rydym yn ddiolchgar am y berthynas gydweithredol yr ydym wedi'i chael gyda'r Swyddfa Archwilio drwy gydol y cyfnod hwn.

Fel y mae'r adroddiad yn nodi'n gywir, rydym wedi cyflawni llawer iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, drwy eu hadolygiadau ffurfiol a'u hymgysylltu parhaus, wedi cyfrannu mewnbwn allanol gwerthfawr i faes newydd ac uchel ei broffil o ran galluedd Cymru.

Yn gywir

**Andrew Jeffreys**
Cyfarwyddwr
Trysorlys Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Telephone: 03000 250870
andrew.jeffreys@llyw.cymru
/ andrew.jeffreys@gov.wales
Gwefan ● website: www.cymru.gov.uk

c.c. Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulled Cenedlaethol Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru
Uned Llywodraethiant Corfforaethol Llywodraeth Cymru
Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru
Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru